# Diwygio'r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Hywel Iorwerth

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

E-bost/rhif ffôn: hywel.iorwerth@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **19 Ionawr 2023** i:

Y Gangen Addysg Gychwynnol i Athrawon
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:
ITEducationAddysgGA@llyw.cymru

**Cwestiwn 1**

i) A ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o gyflwyno Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) neu'n cefnogi'r broses honno? (os nad ydych, ewch i iv.)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | | ✓ |

ii) Os gwnaethoch chi ateb 'Ydw', ym mha fath o leoliad/sefydliad ydych chi'n gweithio?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth AGA – sefydliad addysg uwch | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Partneriaeth AGA – ysgol gynradd | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Partneriaeth AGA – ysgol uwchradd | ☐ | Corff rheoleiddio (yn cynnwys arolygiaethau) | ☐ |
| Partneriaeth AGA – ysgol pob oed | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Partneriaeth AGA – ysgol arbennig | ☐ | Arall (manylwch os gwelwch yn dda) | ☐ |

iii) Beth yw eich prif rôl chi?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Addysgwr athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn sefydliad addysg uwch | ☐ | Swyddog Cymorth ANG/sefydlu | ☐ |
| Addysgwr athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn ysgol | ☐ | Arolygydd | ☐ |
| Arweinydd partneriaeth AGA – sefydliad addysg uwch | ☐ | Swyddog monitro achredu | ☐ |
| Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner arweiniol | ☐ | Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner | ☐ |
| Arall (manylwch os gwelwch yn dda) | ☐ | | |

iv) Os nad ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o ddarparu Addysg Gychwynnol Athrawon nac yn cefnogi'r broses honno, ym mha rinwedd yr hoffech chi roi adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Cymdeithasau proffesiynol yn cynnwys undebau'r gweithlu addysg | ☐ |
| Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed) | ☐ | Trydydd sector | ☐ |
| Oedolyn (nid rhiant na gofalwr) | ☐ | Darparwr hyfforddiant | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Athro dan hyfforddiant | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Athro newydd gymhwyso | ☐ | Myfyriwr/academydd | ☐ |
| Athro ysgol (nad yw'n gweithio fel addysgwr athrawon ar hyn o bryd) | ☐ | Pennaeth (nad yw'n ymwneud â phartneriaeth AGA yng Nghymru ar hyn o bryd) | ☐ |
| Arall (manylwch os gwelwch yn dda) | ✓ | Comisiynydd y Gymraeg | |

v) A ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

Os 'Ydw', manylwch os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| Comisiynydd y Gymraeg |

**Cwestiwn 2** – A ydych chi wedi darllen y ddogfen drafft 'Ymgynghoriad ar y meini prawf ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru'?

| **Do** | ✓ | **Naddo** | ☐ |
|---|---|---|---|

Os gwnaethoch chi ateb 'Naddo' rydym yn argymell eich bod yn darllen y ddogfen cyn parhau â'r holiadur.

**Cwestiwn 3** – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru' yn y ddogfen yn egluro'r Weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a'r ffordd o feddwl ddeallusol sy'n ofynnol i gynllunio a chyflwyno rhaglenni AGA yn well?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu

| |
|---|
| Nid yw'r *frawddeg 'dyhead Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'* wir yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru. Mae 'sicrhau' yn hytrach na 'dyheu' y bydd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yn rhan o bolisi addysg y Llywodraeth, mae strategaeth fanwl ar gyfer cyflawni hyn, ac mae sicrhau digon o athrawon sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn gwbl allweddol i'r holl bolisi. |

| |
|---|
| Dylai’r adran hwn sôn am gynllun Gweithlu Cymraeg Mewn Addysg Llywodraeth Cymru yn ogystal â’r pwyslais amlwg ar y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd. |

**Cwestiwn 4** – A ydych chi’n cytuno bod y diwygiadau i ‘Adran B: strwythurau, prosesau, a mewnbynnau rhaglenni AGA’ yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer rhaglenni AGA yng Nghymru?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

| |
|---|
| Nid ydym o’r farn bod y diwygiadau i Adran B (ac adran 4.6 yn benodol) yn adlewyrchu amcanion a thargedau’r Llywodraeth o safbwynt y Gymraeg ym myd addysg. Mae sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog yn gwbl greiddiol er mwyn cyflawni amcanion a thargedau Cymraeg 2050, ac mae gan AGA rôl gwbl allweddol yn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn wir o ran amcanion a thargedau’r Llywodraeth ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg, a hefyd o ran y disgwyliad y bydd defnydd llawer helaethach o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Er bod y meini prawf diwygiedig yn gryfach na’r rhai presennol o safbwynt y Gymraeg, rydym o’r farn bod angen eu cryfhau ymhellach er mwyn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru o safbwynt y Gymraeg ac addysg. |

**Cwestiwn 5** – A ydych chi’n cytuno bod y diwygiadau i ‘Adran C: Canlyniadau rhaglenni’ yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer AGA yng Nghymru?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6** – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i'r adrannau canlynol:

- 'Rhestr termau'
- 'Cyfeiriadau'
- 'Atodiad 2: Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru'
- 'Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig **–** mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth gynllunio rhaglenni'

yn cefnogi'r newidiadau a wnaed i brif gorff y ddogfen?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7** – A ydych chi'n cytuno bod cynnwys 'Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY' yn amlinellu'n glir nodau Llywodraeth Cymru i bennu a oes unrhyw newidiadau'n ofynnol yn fframwaith AGA Cymru er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth a chefnogi eu dyheadau?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8**
Hoffem gael eich barn chi ar yr effaith y byddai'r Meini prawf diwygiedig yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y meini prawf yn gryfach o safbwynt y Gymraeg na'r meini prawf cyfredol. Mae'r Gymraeg yn cael sylw amlycach drwyddi draw, ac mae adran 4.6 ar y Gymraeg yn rhoi arweiniad cryfach i Bartneriaethau o ran y disgwyliadau sydd arnynt o safbwynt y Gymraeg. Er hyn, mae lle i gryfhau rai elfennau o'r meini prawf, ac rydym o'r farn ei bod yn hanfodol gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y meini prawf yn adlewyrchu amcanion a thargedau'r Llywodraeth ynghylch twf addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Fel cyfanwaith nid yw'r ddogfen yn adlewyrchu polisi a thargedau Llywodraeth Cymru ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol, nac ychwaith rôl allweddol gweithlu addysg ddwyieithog er mwyn cyflawni hyn.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod y Senedd yma. Mae cytundeb cydweithio rhwng Plaid Lafur a Phlaid Cymru yn nodi mai un o amcanion creiddiol y Bil fydd *'pennu uchelgeisiau a chymhellion newydd i ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.'* Yn amlwg, nid yw'n glir eto beth fydd hyd a lled cynnwys y Bil arfaethedig o safbwynt y gweithlu addysg a beth fydd goblygiadau hyn i AGA ac i ddatblygiad proffesiynol athrawon yn y dyfodol.

Yn ein barn ni mae gweledigaeth a thargedau Llywodraeth Cymru o safbwynt y Gymraeg ym myd addysg yn golygu y bydd rhaid symud at integreiddio hyfforddiant iaith fel rhan annatod o hyfforddi fel athro, ac fel rhan orfodol o ddatblygiad proffesiynol athrawon. Hynny yw, bydd angen i bob hyfforddai fynychu cyrsiau iaith Gymraeg wrth hyfforddi, ac fe fydd angen i'r hyfforddiant hwn arwain at hyfforddiant dilynol yn ystod cyfnod sefydlu fel athro, ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol gydol oes. I bob pwrpas bydd angen gosod pob athro ar gontinwwm iaith Gymraeg. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol mae'n anorfod y bydd angen i'r ddarpariaeth yma gael ei gynllunio a'i gydlynu ar lefel arbenigol a chenedlaethol.

Rydym yn llwyr dderbyn nad oes modd i'r meini prawf ragweld y datblygiadau hyn. Er hyn, mae'r Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn rhoi syniad gweddol glir o gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru. Mae nifer o ymrwymiadau'r cynllun hwn (amcanion 1.6 ac 3.2 yn benodol) yn symud i gyfeiriad darpariaeth ieithyddol genedlaethol i athrawon. Ar hyn o bryd nid yw'r meini prawf hyn yn adlewyrchu'r cyfeiriad polisi hwn. Rydym yn derbyn bod cyfyngiadau i'r hyn sy'n bosib ei gynnwys mewn meini prawf o'r fath, ond gall y meini prawf fod yn llawer mwy uchelgeisiol wrth geisio adlewyrchu a manteisio'n llawn ar yr hyn sydd eisoes wedi'i gyhoeddi yng nghynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Isod rydym yn amlinellu'r prif welliannau yr hoffem weld yn y meini prawf drafft:

**Dull strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Partneriaethau AGA**

- Rydym yn croesawu'r bwriad i annog partneriaethau i ddatblygu dull mwy strategol a hir dymor o ddatblygu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar gyrsiau AGA. Er hyn, mae'r gofynion ar hyn o bryd yn amwys iawn, ac nid yw'n egluro'n ddigonol hyd a lled y gofynion ar Bartneriaethau.

- Rydym yn awgrymu bod angen i'r meini prawf ragnodi mewn mwy o fanylder yr hyn y mae 'datblygu dull strategol ar gyfer y Gymraeg' yn ei olygu. Os yw datblygu dull strategol ar gyfer y Gymraeg yn rhan o'r meini prawf, a bod datblygu strategaeth o'r fath yn amod ar gyfer achredu, yna mae'n rhaid i'r meini prawf egluro hyd a lled y disgwyliadau sydd ar Bartneriaethau. Mae cyfle amlwg yma i annog Partneriaethau i ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer datblygu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod o amser. Er enghraifft:
  - a oes disgwyl i Bartneriaethau ddatblygu *'gweledigaeth'* ynteu *'strategaeth',* neu'r ddau?
  - a oes disgwyl i Bartneriaethau lunio'r weledigaeth/strategaeth fel rhan o broses achredu rhaglen AGA?
  - beth yw'r gofynion ar gyfer egluro a chyhoeddi'r strategaeth hon?
- Yn dilyn o'r pwynt blaenorol, beth yw'r disgwyliadau o ran cynnwys y strategaeth, a beth yw'r meini prawf ar gyfer gwahaniaethu rhwng strategaethau cryf a rhai gwan/annigonol? Mae'r ddogfen yn cyfeirio at rai elfennau pwysig, ond gellir mynd ymhellach, gan gynnwys gofyniad i gysylltu'r strategaethau hyn ar lefel partneriaeth yn fwy amlwg gyda Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Er enghraifft:
  - sut bydd Partneriaethau yn defnyddio data er mwyn deall y galw ac er mwyn cynllunio prosesau recriwtio?
  - sut bydd Partneriaethau yn manteisio ar raglen genedlaethol o gyrsiau Cymraeg i fyfyrwyr AGA
  - beth yw cynlluniau'r Partneriaethau ar gyfer darparu lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i hyfforddeion
  - sut bydd y Partneriaethau yn defnyddio'r 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg' at bwrpas cynllunio darpariaeth
  - sut bydd y Bartneriaeth yn annog hyfforddeion sy'n siarad Cymraeg ond sydd â diffyg hyder
  - sut bydd y Bartneriaeth yn paratoi hyfforddeion at gynllunio gwella eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu gyrfa ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus?
  - dylid gofyn i Bartneriaethau gynnwys amcanion tymor byr, canolig a thymor hwy er mwyn datblygu'r ddarpariaeth yma a sicrhau cyfran uwch o athrawon fydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
- Credwn hefyd y gallesid cysylltu'r strategaethau hyn gyda gofynion monitro a chynllunio penodol ar lefel genedlaethol (gweler y sylwadau isod ar fonitro ac atebolrwydd).
- I grynhoi felly, rydym yn croesawu'r bwriad yma, ond mae angen rhagor o fanylder ac eglurder ynghylch y gofyniad hwn ar Bartneriaethau i ddatblygu strategaeth hir dymor.

**Darpariaeth gan y Bartneriaeth i wella sgiliau Cymraeg pob myfyriwr AGA**

- Mae'n gadarnhaol fod yr adran hon yn fwy manwl na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er hyn mae'r adran hon yn dal yn amwys o ran yr hyn y mae disgwyl i

Bartneriaethau ei wneud. Credwn fod angen i'r adran hon fod yn fwy rhagnodol o ran yr hyn y mae disgwyl i Bartneriaethau ei wneud, a hefyd mae angen cysylltu'r gofynion hyn yn fwy eglur gyda chynlluniau a strategaethau cenedlaethol sy'n bodoli.

- Mae'n gadarnhaol gweld cyfeirio penodol at 'Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg ymarferwyr addysg', ac rydym yn falch o weld y bydd gofyn i Bartneriaethau asesu sgiliau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant ar ddechrau a diwedd y rhaglen. Yr hyn sydd ar goll fodd bynnag, yw gofynion penodol ynghylch yr hyn y mae disgwyl i Bartneriaethau ei wneud er mwyn hwyluso cynnydd hyfforddeion ar hyd y continwwm ieithyddol hwn. Y tu hwnt i'r gofyniad i bob athro dan hyfforddiant gael o leiaf 35 awr o feithrin sgiliau Cymraeg, does dim manylder ynghylch yr hyn y mae disgwyl i Bartneriaethau ei wneud i ddatblygu sgiliau Cymraeg hyfforddeion.
- Yn dilyn y pwynt blaenorol, nid yw'n glir beth yw sail y gofyniad hwn am isafswm o 35 awr o hyfforddiant. A oes unrhyw dystiolaeth o'r sgiliau disgwyliedig fydd gan hyfforddeion gwahanol ar ôl 35 awr o hyfforddiant? Sut mae'r disgwyliadau ieithyddol hyn yn cyfateb i dargedau ac amcanion y Llywodraeth o ran twf addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, a'r disgwyliad ynghylch cynyddu defnydd y Gymraeg wrth addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg? Mae amcan 3.2 (1) Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn nodi bwriad i gynllunio rhaglen o gyrsiau Cymraeg i hyfforddeion AGA, a bod y cyrsiau hyn yn seiliedig ar amcanion ieithyddol penodol. Mae hyn oll ar goll o'r meini prawf, ac yn hytrach mae gofyniad amwys ynghylch isafswm o 35 awr o hyfforddiant.
- Mae Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn ymrwymo i *'ffurfioli gofynion ar gyfer gweithredu a chymedroli Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg'*. Nid yw'r meini prawf gyfystyr â ffurfioli gweithredu'r fframwaith hwn, ac er mwyn gwneud hyn mae angen rhagor o fanylder. Er enghraifft, dylid annog Partneriaethau i ddefnyddio'r fframwaith at bwrpas cynllunio darpariaeth ieithyddol addas i hyfforddeion gwahanol. Byddem yn dymuno gweld y meini prawf yn annog Partneriaethau i ddatblygu cynlluniau penodol i'r hyfforddeion hynny sy'n gallu'r Gymraeg, ond sydd efallai â diffyg hyder i'w ddefnyddio wrth addysgu. Dylid annog partneriaethau i ddefnyddio'r fframwaith cymwyseddau iaith at bwrpas teilwra darpariaeth i grwpiau gwahanol o hyfforddeion. Yn syml, mae angen i'r meini prawf yma roi syniad cliriach o sut mae'r Llywodraeth yn dymuno i'r Bartneriaeth ddefnyddio'r fframwaith a'r asesiadau at bwrpas cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog.
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, does dim cydnabyddiaeth na chyfeiriad yma at berthnasedd hyfforddiant iaith i fyfyrwyr AGA wedi'i gynllunio'n genedlaethol. Mae Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn addysg yn nodi'r ymrwymiad canlynol: *'Darparu rhaglen o gyrsiau Cymraeg i fyfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg yn unol â meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru a fframwaith cymwyseddau iaith (amcan 1.6 (4)''* Mae'r cynllun gweithlu yn rhoi cyfrifoldeb am hyn i Bartneriaethau AGA, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Mae amcan 3.2 (1) y cynllun gweithlu yn nodi: '*Gweithredu rhaglen genedlaethol o gyrsiau Cymraeg am ddim ar gyfer pob myfyriwr ac ymarferydd AGA yn unol â'r Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg, gan nodi amcanion ieithyddol penodol*.' Nid yw'r meini prawf yn cyfeirio o gwbl at y ddarpariaeth hyfforddiant iaith yma fydd yn cael ei

gynllunio’n genedlaethol a’i gysylltiad â’r disgwyliad sydd ar y Partneriaethau i ddarparu o leiaf 35 awr o hyfforddiant. Nid yw’n glir i ni pam nad yw’r meini prawf yn annog, neu’n ei wneud yn ofynnol, bod Partneriaethau yn gorfod egluro sut byddant yn manteisio ar y ddarpariaeth genedlaethol hon ac yn integreiddio elfennau o’r hyfforddiant fel gofynion ar gyfer grwpiau gwahanol o hyfforddeion (a hynny’n ddibynnol ar eu sgiliau cychwynnol ar gychwyn y rhaglen).

- Y pwynt cyffredinol yma yw nad yw’r meini prawf wir yn adlewyrchu ymrwymiadau Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Mae’n hanfodol fod y meini prawf newydd yn gyson ag ymrwymiadau'r cynllun gweithlu, a bod y meini prawf yma yn cyfrannu i’r eithaf at gyflawni amcanion y cynllun ac at bolisi addysg Llywodraeth Cymru.

**Darpariaeth ar gyfer y rhai sy’n dymuno addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog**

- Nid yw’n glir beth yw ystyr y cymal sy’n nodi'r *‘dylai Partneriaethau gynllunio a gweithredu’n barod ar gyfer y trydydd cylch achredu’*. Mae’n ymddangos bod y pwyntiau hyn yn cyfateb i amcan 1.5 (1) Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn addysg, sef *‘cynnwys diffiniad clir ar gyfer y gofyniad sylfaenol am ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg’*.
- Nid yw’n glir pam nad yw’r gofynion sylfaenol hyn yn cael eu cynnwys yn y cylch achredu hwn. Rydym o’r farn bod sicrhau bod pob adnodd a roddir i fyfyrwyr ar gael yn ddwyieithog, a bod o leiaf 50% o’r holl sesiynau a arweinir gan y SAUau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddisgwyliadau addas ar gyfer y cylch achredu hwn.
- Mae recriwtio yn fater allweddol mewn perthynas â chynyddu nifer yr athrawon fydd yn gallu addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Rydym yn derbyn bod y ddogfen ymgynghori’n nodi’n glir bod prosesau sy’n ymwneud â chyflenwi’r gweithlu yn parhau i gael eu rheoli ar wahân. Er hynny, credwn y byddai modd i adran 4.6 (ac o bosib adrannau eraill y meini prawf) o leiaf groesgyfeirio â’r flaenoriaeth o recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, ers mis Medi 2020, mae’n ofynnol i ddarparwyr AGA anelu at sicrhau bod 30% o’r myfyrwyr y byddant yn eu derbyn yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i’r meini prawf nodi hyn, a’i gwneud yn ofynnol bod y Partneriaethau yn ymrwymo i hyn ac yn egluro sut byddant yn cwrdd â’r targed. Fel rydym eisoes wedi’i nodi, dylai’r meini prawf ei gwneud yn ofynnol bod pob Partneriaeth yn datblygu strategaeth recriwtio fel rhan o’u cynlluniau strategol a hir dymor ar gyfer y Gymraeg.

**Arolygu, monitro ac atebolrwydd**

- Fel sydd eisoes wedi’i nodi uchod, un gwendid yn y meini prawf yw diffyg eglurder ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am arolygu a monitro’r ddarpariaeth Gymraeg, a sut y bydd hyn yn digwydd.
- Yn anffodus nid yw atodiad 1 (sy’n canolbwyntio ar rôl Estyn) wedi’i gynnwys yn y ddogfen. Nid oes modd roi barn felly a fyddai gwaith arolygu a monitro Estyn am

fod yn ddigonol er mwyn gwneud yr hyn sydd ei angen o safbwynt sicrhau bod ein disgwyliadau o safbwynt y Gymraeg yn cael eu gwireddu. Mae angen gosod cyfrifoldebau penodol ar rywun i wneud y gwaith o yrru'r agenda iaith Gymraeg ar lefel genedlaethol.

- Mae'r gofyniad ar Bartneriaethau i ddatblygu dull strategol a hir dymor ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn cynnig cyfle amlwg i ystyried pa gefnogaeth genedlaethol bellach y gallesid ei darparu. Er enghraifft, mae'n bosib y gellid rhoi cyfrifoldebau penodol i Gyngor y Gweithlu Addysg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol gydweithio er mwyn arwain y gwaith o gefnogi cynlluniau strategol y Partneriaethau o safbwynt y Gymraeg. Byddai cael trefn o'r fath yn lleddfu rhywfaint ar ein pryderon ynghylch amwyster y meini prawf drafft o ran y gofynion ynghylch darpariaeth Gymraeg.

**Materion Amrywiol**

- Mae'r trydydd paragraff adran 4.6 yn nodi 'dylid mynd ati i sicrhau hyn yn y ddwy ffordd ganlynol'. Nid yw'n glir at ba ddwy ffordd y cyfeirir, gan fod tair adran yn dilyn. Mae'r fersiwn Saesneg o'r meini prawf yn wahanol, a ni cheir cyfeiriad at 'ddwy ffordd' ond yn hytrach y 'ffyrdd canlynol'.
- Mae brawddeg gyntaf adran 4.6 yn cyfeirio at araith 'Cymraeg - mae'n perthyn i ni gyd'. Nid yw'n glir pam fod y meini prawf yn cyfeirio at yr araith hon yn hytrach na'r strategaethau, cynlluniau, a thargedau amlwg eraill sy'n gosod cyfeiriad polisi addysg Gymraeg y Llywodraeth.

**Cwestiwn 9** – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gallai'r Meini Prawf arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Gweler ein hymateb i gwestiwn 8 uchod.

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig and ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt:

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐